

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Dewi Evans

Nos Lun Ebrill 13eg 2015 am 7.30 y.h.

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr is-gadeirydd Paul Weston

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen a Dilwyn Roberts.
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts a Paul Weston.
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Chwefror** cynigiwyd yn gywir gan Gwynfor Roberts gydag Edmund Rees yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Wefan – y Clerc a'r Warden wedi bod am hyfforddiant a'r wefan wedi cael ei rhoi ar waith.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1.a. CBSC - Cais cynllunio rhif 38695 Llys Dymper wedi tynnu'n ôl o'r apêl.
 - b. " - Cais cynllunio rhif 41459 Cwrt y Llyn wedi tynnu'n ôl.
 - 6.2. Rhian Evans Archwilydd Mewnol – llythyr yn cadarnhau nad oes ganddi unrhyw gysylltiad gyda'r Cyngorwyr nac ychwaith yng ngwaith y Cyngor.
 - 6.3. CVSC – aelodaeth cynigiodd Gwynfor Roberts a phawb yn gytûn na fyddwn yn ymaelodi gyda'r Gymdeithas.
7. **Chwe Maes Allweddol:** Rhannwyd copïau o'r canlynol ac edrychwyd drostynt a bu angen ei mabwysiadu yn y cyfarfod blynyddol.
 - 6.1. Asesiad Risg
 - 6.2. Rheolau Sefydlog
 - 6.3. Rheoliadau ariannol
 - 6.4. Rheolaethau Mewnol
 - 6.5. Polisi ymateb i Gwynion
 - 6.6. Y Gyllideb Flynyddol
8. **Mantolen Ariannol:** Rhannwyd allan y fantolen ariannol am y flwyddyn 2014-15 ac ar ôl ei archwilio cynigiodd Edmund Rees ei bod yn gywir a'i derbyniwyd yn gyflawn gan bawb.
9. **Talu Costau'r Clerc:** Cynigiodd Gwynfor Roberts a phawb yn gytûn dalu costau'r Clerc am 4 mis o Rhagfyr i Fawrth sef **£75. 56** gyda siec rhif **100238**.
10. **Sgip Gymunedol:** Penderfynwyd archebu Sgip ar gyfer mis Mai a'r clerch i drefnu.

11. **Blodau, Cafnau a Cherfluniau Pren:**
- 11.1. Gofynnwyd i'r clerch holi yng Nghonwy yn gyntaf os oes modd cael cafnau blodau ganddynt neu bydd rhaid chwilio yn rhywle arall.
 - 11.2. Archebu planhigion – Rhoddwyd caniatâd i'r clerch wario hyd at £60 am blanhigion os bydd rhaid, a'i cael o Feithrinfa Flodau Betws y Coed.
 - 11.3. Angen rhoi olew ar y cerfluniau pren – penderfynwyd archebu'r olew a 'sprayer' bychan o Amaethwyr Corwen ac mi wnaiff y Cyngorwyr y gwaith o gynnal a chadw.
 - 11.4. Gofynnwyd i'r clerch edrych am fwrdd picnic arall yn lle y fainc sydd wedi pydru.
12. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**
Nid oedd y Cyngorhydd Sirol yn bresennol.
13. **Unrhyw fater arall:**
- 13.1. Angen ail-osod y bun baw cŵn sydd wrth Y Giler Arms.
 - 13.2. Holi yng Nghonwy pwy sy'n gyfrifol o'r 'Bus Shelter' a gweld os oes angen ei rhestru ar y polisi yswiriant.
14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 11eg 2015 am 7.30 y.h.**
